PECYN Y CONTRACTWR

# PECYN CYMORTH INSIWLEIDDIO WALIAU ALLANOL (IWA) A GWAITH CYSYLLTIEDIG

## Pecyn C: Contractwyr | Rhan 1: Cyflwyniad Cyffredinol

Cyfres Gwella Cartrefi

GREEN MAN ECOLOGY

Caru • Love Ceredigion

Ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw golled, difrod neu ganlyniadau anfoddhaol sy'n codi yn sgil gweithredu unrhyw weithgareddau a geir o fewn y Pecyn Cymorth hwn.  Nid yw'r defnydd o enwau perchnogol a masnachol o fewn y Pecyn Cymorth hwn yn golygu o angenrheidrwydd bod y cynnyrch yn cael ei gymeradwyo gan yr awduron.

Cedwir pob hawl.  Ni chaniateir atgynhyrchu, dosbarthu neu drosglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn ar unrhyw ffurf, na thrwy unrhyw ddull, gan gynnwys llungopïo, recordio neu ddulliau trydanol a mecanyddol eraill, heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan **Gyngor Sir Ceredigion**.

*Fersiwn 1.2 Medi 2016*

**Arweinwyr y Prosiect:**  Graeme Lane a Leanne Bird

**Golygwyd gan:** Leanne Bird, Cyngor Sir Ceredigion

**Ysgrifennwyd gan:** Catharine Wüste, Green Man Ecology Ltd.

**Cyfraniadau gan:** Graeme Lane, Cyngor Sir Ceredigion, yr Ecolegydd llawrydd Tom McOwat, Willmott Dixon Energy Services Ltd, Barbara Owsianka, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Ian Thomas (gwirfoddolwr)

**Dyluniwyd gan**: InSynch

Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ymgyngoreion**:  Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod

**Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PG**

# Y PECYNNAU CYMORTH

## Pecyn A: Pecyn y Cleient

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer cleientiaid

## Pecyn B: Pecyn yr Ecolegydd

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer Ecolegwyr

Rhan 3 – Cais am Drwydded Rhanddirymiad Rhagofalus

- *ffurflen gais*
- *templed MS*

## Pecyn C: Pecyn y Contractwr

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer Contractwyr

Rhan 3 – Datganiad y dull lliniaru

Rhan 4 – Sgwrs y bocs tŵls

## Pecyn D: Pecyn Lliniaru

Rhan 1 – Ffurflen archwilio lliniaru eiddo

Rhan 2 – Enghraifft o ffurflen archwilio lliniaru wedi ei llanw

Rhan 3 – Catalog o ddulliau lliniaru a gwelliannau

Rhan 4 – Cais am wybodaeth gyhoeddus am ystlumod ac adar

Rhan 5 – Gwybodaeth am flychau ar gyfer rhywogaethau a bywyd gwyllt a warchodir ar gyfer perchnogion eiddo

# Y BROSES GYFAN

## CAM 1: Pennu'r risg i ystlumod ac adar sy'n magu

- Arolwg bwrdd gwaith gan gynnwys chwiliad y Ganolfan Cofnodion Lleol
- Arolwg ar droed gan ecolegydd cymwys i chwilio am arwyddion o ystlumod, a allai fod ystlumod yn bresennol, gan gynnwys mynedfeydd posib ac arwyddion o adar sy'n magu

Os nad oes DIM arwyddion o adar neu ystlumod yn magu / a does dim tebygolrwydd bod ystlumod yn breswennol, gallwch fynd ymlaen â'r gwaith, gan ymgorffori'r gwelliannau ar gyfer yr eiddo dan sylw.

Os oes arwyddion o adar neu ystlumod yn magu / mae'n bosibl bod ystlumod yn bresennol – ewch i gam 2.

## CAM 2: Cynllunio mesurau lliniaru

- Gwarchod rhag effeithio ar yr ystlumod drwy sicrhau bod yr holl fynedfeydd sydd ganddynt yn cael eu cadw, a thrwy beidio ag effeithio ar linell y to/y bondo
- Gwneud y gwaith y tu allan i dymor magu'r adar
- Darparu nythod newydd sy'n addas ar gyfer y rhywogaethau perthnasol

GELLIR cadw'r mynedfeydd sydd gan yr ystlumod ar yr eiddo / does dim angen ymestyn llinell y to / does dim angen bondo newydd

— Dylech lunio datganiad dull sy'n cynnwys mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer ystlumod ac adar, a gwneud cais am drwydded ystlumod ragofalus
— Dylech fynd ymlaen â'r gwaith yn unol â'r datganiad dull ar gyfer yr eiddo dan sylw

NI ELLIR cadw'r mynedfeydd sydd gan yr ystlumod ar yr eiddo / mae angen ymestyn llinell y to / mae angen bondo newydd – ewch i gam 3.

## CAM 3: Arolwg presenoldeb / absenoldeb

- Os nad yw'n bosibl gwarchod rhag yr effeithiau posib, bydd angen cynnal arolygon presenoldeb/absenoldeb o'r ystlumod yn unol â'r canllawiau cyhoeddedig.

Os NAD OES dim tystiolaeth o ystlumod

— Bydd angen llunio datganiad dull sy'n cynnwys mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer ystlumod ac adar, a gwneud cais am drwydded ystlumod ragofalus
— Dylech fynd ymlaen â'r gwaith yn unol â datganiad dull yr eiddo dan sylw.

OS OES tystiolaeth o ystlumod. Dylech wneud cais am drwydded ystlumod penodol (rhanddirymiad) ar gyfer yr eiddo dan sylw, a gwneud y gwaith yn unol â'r datganiad dull (gan ymgorffori mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer adar) NEU peidiwch â gwneud y gwaith.

# Cynnwys

1 CYFLWYNIAD ..... 1
1.1 Y Cefndir ..... 1
1.2 Crynodeb byr o IWA a'r broses osod ..... 1
1.3 Effaith bosib IWA ar ystlumod ..... 2
1.4 Crynodeb o'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau polisi sy'n effeithio ar ystlumod ..... 3
1.5 Y Resymau dros warchod ystlumod ..... 5
1.7 Crynodeb o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag adar ..... 5
1.8 Y rhesymau dros warchod adar ..... 6
1.9 Ystyriaethau deddfwriaethol eraill ..... **Error! Bookmark not defined.**
1.10 Cyfyngiadau ar gynllun IWA a'r goblygiadau i fywyd gwyllt ..... 7
2 NODAU AC AMCANION ..... 8
2.1 Nod y Pecyn Cymorth IWA ..... 8
3 DULLIAU ..... 8
3.1 Profiad o IWA ..... 8
3.2 Profiad o ecoleg ystlumod ..... 9
3.3 Ymgynghori ..... 9
3.4 Treialu ..... 9
4 Y CANLYNIADAU ..... 10

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 Y Cefndir

**1.1.1** Mae cartrefi ledled Cymru'n cael eu dewis ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni o dan amryw o gynlluniau grant Llywodraeth Cymru.

**1.1.2** Gan amlaf, caiff y grantiau eu trosglwyddo i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, sydd yn mynd ati i gomisiynu contractwyr i wneud y gwaith. Bydd y contractwyr naill ai'n gorfod tendro am y contract neu fe all fod yn rhan o gytundeb fframwaith sy'n bodoli eisoes gyda'r Awdurdod Lleol.

**1.1.3** Yn ogystal â'r cynlluniau grantiau, mae yna hefyd unigolion/cymdeithasau/busnesau preifat sy'n Insiwleiddio Waliau Allanol fel rhan o ddatblygiadau a ganiateir.

**1.1.4** Oherwydd eu nifer a'u hamseriad, fe allai'r cynlluniau IWA hyn a'r prosiectau unigol gael effaith sylweddol ar boblogaethau o ystlumod sy'n clwydo ac adar magu ar draws Cymru, os na chânt eu hystyried a'u cynllunio'n briodol.

**1.1.5** Felly, fe aeth Cyngor Sir Ceredigion ati, gydag arian oddi wrth Llywodraeth Cymru, i greu pecyn cymorth o ganllawiau ecolegol, i awdurdodau lleol a chontractwyr sy'n ymwneud â chynlluniau gwella ynni ddefnyddio, gyda phwyslais arbennig ar insiwleiddio waliau allanol (IWA[1]) a gwaith cysylltiedig. Cafodd yr ecolegwyr Dr Catharine Wüster (Green Man Ecology Ltd) a Mr Tom McOwat eu comisiynu gan Gyngor Sir Ceredigion i ddrafftio'r pecyn cymorth hwn ar ran Cyngor Sir Ceredigion.

**1.1.6** Cofiwch, er bod agweddau eraill ar wella effeithlonrwydd ynni'n cael eu crybwyll yn y canllawiau hyn, ei bod yn fwriad darparu mwy o ganllawiau manwl yn y dyfodol ar y materion penodol hyn e.e. insiwleiddio waliau ceudod.

## 1.2 Crynodeb byr o IWA a'r broses osod

**1.2.1** Mae cynllun IWA yn golygu gosod blociau o insiwleiddiad solet ar waliau allanol adeilad, gan ddefnyddio plygiau a glud. Caiff trim rhag pob tywydd ei osod ar unrhyw ymylon sy'n agored i'r elfennau. Ar ôl gosod y deunydd ar y waliau, mae'r arwyneb yn cael ei rendro a'i baentio â gorffeniad allanol. Mae nifer o systemau wedi'u datblygu sy'n amrywio o ran y deunyddiau a'r gosodiadau a ddefnyddir, ac mae rhai'n fwy cymhleth na'i gilydd.

[1] Sylwer: mae'r talfyriad IWA (Insiwleiddio Waliau Allanol) a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn a thrwy'r holl Becyn Cymorth wedi'i greu er hwylustod ar gyfer y dogfennau hyn yn unig, ac nid yw'n cynrychioli unrhyw dalfyriad safonol, nac ychwaith yr un cwmni na chynnyrch.

**1.2.2** The installation process requires that entire walls be covered to prevent 'cold (or thermal) bridge' effects. A cold bridge is an area in a building where a gap occurs in the insulation (for example: the roof/wall junction and the wall/floor junction). As Mae’r broses insiwleiddio’n gofyn bod waliau cyfan yn cael eu gorchuddio i atal effeithiau ‘pont oer (neu thermol)’. Mae pont oer yn golygu rhan o adeilad lle mae bwlch yn yr insiwleiddiad (er enghraifft: lle mae’r to’n cwrdd â’r wal neu’r wal yn cwrdd â’r llawr). Bydd y rhannau hyn yn oerach na phrif rannau’r adeilad ac felly mae yna fwy o berygl cyddwysiad, ac mae llwydni’n fwy tebygol o dyfu yno hefyd[2].

**1.2.3** Er mwyn i’r insiwleiddiad fod yn effeithiol, mae’n bosibl y bydd rhai camau’n anhepgor, er enghraifft, selio topiau platiau’r wal rhwng y plât a’r bondo, llenwi bwlch top wal geudod, neu adleoli tyllau awyru.

**1.2.4** Mae insiwleiddiad wal allanol yn ymestyn allan oddeutu 80mm o’r wal. Oherwydd trwch ychwanegol y waliau, gall fod angen ailosod estyll y bondo a’r estyll tywydd, neu ymestyn llinellau’r to. Mae’r estyll y bondo a’r estyll tywydd fel arfer yn ffitiadau plastig wedi’u mowldio, a’r trimiau’n rhai alwminiwm wedi’i orchuddio â phowdwr.

# 1.3 Effaith bosib IWA ar ystlumod

**1.3.1** Gall insiwleiddio waliau allanol a gwaith cysylltiedig gael effaith andwyol ar ystlumod a’u mannau gorffwys (clwydfannau) fel a ganlyn:

1. Aflonyddu’n uniongyrchol ar ystlumod o ganlyniad i weithgareddau dynol ar adeilad lle ceir man gorffwys/clwydfan (e.e. tynnu estyll tywydd, dinistrio estyll bondo, tynnu llechi o’r to)
2. Difa clwydfan ystlumod yn anuniongyrchol trwy flocio’r mynedfeydd (e.e. blocio mynedfa’r bondo gyda deunydd insiwleiddio neu ddeunydd selio, selio mynediad at wal geudod, blocio estyll bondo).
3. Aflonyddu/dinistrio’n uniongyrchol pan na fydd amodau amgylcheddol y glwydfan yn addas bellach o ganlyniad i effaith yr insiwleiddio, a’r ystlumod yn gorfod symud.
4. Dinistrio clwydfan ystlumod yn anuniongyrchol trwy wneud y fynedfa’n anaddas (e.e. oherwydd arwyneb llithrig trimiau a/neu estyll plastig).
5. Goblygiadau lles, gan gynnwys straen ac anafiadau i ystlumod, neu farwolaeth.
6. Marwolaeth, er enghraifft, o gau’r ystlumod i mewn yn y glwydfan am fod y mynedfeydd wedi’u blocio.

[2] www.eden.gov.uk/planning-and...control/.../prevention-of-cold-bridges/

## 1.4 Crynodeb o’r ddeddfwriaeth a’r canllawiau polisi sy’n effeithio ar ystlumod

**1.4.1** Mae holl wahanol rywogaethau Ystlumod y Deyrnas Unedig wedi’u gwarchod dan Ddeddfwriaeth Genedlaethol (Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981[3], (fel y’i diwygiwyd) a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y’u diwygiwyd[4])) yn ogystal â deddfwriaeth Ewropeaidd (Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE 1992). Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y’u diwygiwyd) yw trosiad y Deyrnas Unedig o’r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

**1.4.2** Mae Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 yn berthnasol wrth ddatblygu eiddo ac mae’n gwneud y canlynol yn drosedd:

- Dal, anafu neu ladd ystlum yn fwriadol
- Aflonyddu ar ystlum yn ei glwydfan neu aflonyddu ar grŵp yn fwriadol
- Difrodi neu ddinistrio clwydfan ystlumod (hyd yn oed os nad yw’r ystlumod yn clwydo yno ar y pryd)
- Meddu ar ystlum, neu hysbysebu/gwerthu/cyfnewid ystlum (yn fyw neu’n farw) neu unrhyw ran o ystlum.

**1.4.3** Mae’r ddeddfwriaeth yn nodi bod aflonyddu’n cynnwys unrhyw waith sy’n debygol o wneud y canlynol:

a) amharu ar allu ystlumod;
   i. i oroesi, magu neu atgenhedlu, neu i fagu neu feithrin eu hepil, neu
   ii. i aeafgysgu neu ymfudo; neu
b) effeithio’n ddirfawr ar ddosbarthiad lleol neu nifer y rhywogaeth

**1.4.4** Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn ychwanegu trosedd arall, sef blocio mynedfa clwydfan ystlumod.

**1.4.5** Mae rhai rhywogaethau dethol yn cael eu gwarchod yn fwy helaeth, gan ddibynnu ar statws eu gwarchodaeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Er enghraifft, mae rhai rhywogaethau’n perthyn i Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sef rhestr dros dro o rywogaethau sydd o’r pwys mwyaf at ddibenion cynnal a hyrwyddo bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru. Mae Adran 7 yn disodli Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig a Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, Adran 42, a’r rhestr o rywogaethau a chynefinoedd yng Nghymru. Mae rhai rhywogaethau arbennig wedi’u cynnwys ar Restr Goch yr IUCN o Rywogaethau sydd dan Fygythiad, sef dull byd-eang o werthuso statws gwarchod rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid.

---

[3] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/69/contents

[4] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/490/contents/made

**1.4.6** Er mwyn rhoi ystyriaeth i'r ddeddfwriaeth hon a gwarchodaeth y rhywogaethau, mae gofyn cynnal arolygon rhywogaethau a warchodir cyn dechrau ar unrhyw waith, os yw'n debygol bod yno rywogaethau a warchodir. Bwriad yr arolygon hyn yw darganfod a yw'r rhywogaethau'n bresennol ai peidio, ac i ba raddau y gallent gael eu heffeithio. Bydd angen gofyn cyngor Swyddog Bioamrywiaeth/Ecolegydd yr Awdurdod Lleol neu Swyddog Rhywogaethau a Warchodir Cyfoeth Naturiol Cymru ymhob achos ynghylch yr angen i gynnal arolygon ai peidio ac i ba lefel[3]. Mewn rhai achosion, gyda chyngor Swyddog Bioamrywiaeth/Ecolegydd yr Awdurdod Lleol neu Gyfoeth Naturiol Cymru, mae modd osgoi'r effeithiau, neu ddelio â'r ystyriaethau ecolegol trwy broses o liniaru, sy'n gallu osgoi/leihau gofynion yr arolwg.

**1.4.7** Tymhorol yw gweithgareddau'r rhywogaethau a warchodir, a gall fod angen cynnal arolygon dros nifer o fisoedd. Os felly, bydd angen cynnwys hynny yn amserlen y gwaith. Dylid cynnwys amser ychwanegol ar gyfer cais am Drwydded Rhanddirymiad (Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop) os oes angen un (tua 40 o ddiwrnodau gwaith).

**1.4.8** Bydd angen Trwydded Rhanddirymiad oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru os all unrhyw weithredu sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arwain at drosedd o dan y Gyfraith Genedlaethol y manylir yn ei chylch uchod. Bydd angen cyflwyno datganiad dull sy'n gosod manylion yr holl fesurau lliniaru a gwneud iawn gyda'r cais am drwydded.

**1.4.9** Ni chaiff awdurdod trwyddedu roddi trwydded i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo nes bydd yn fodlon:

- nad oes unrhyw 'opsiwn arall boddhaol' yn lle'r rhanddirymiad[5], ac
- nad yw'r rhanddirymiad 'yn andwyol gyda golwg ar gynnal poblogaeth y rhywogaeth dan sylw yn unol â'i statws gwarchodaeth ffafriol o fewn ei hardal naturiol'

**1.4.10** Bydd angen penderfynu hefyd a yw'r datblygiad yn cynnal iechyd cyhoeddus neu ddiogelwch cyhoeddus, neu unrhyw ystyriaethau eraill sydd o'r budd cyhoeddus pennaf, gan gynnwys rhai o natur gymdeithasol ac economaidd, ac iddynt ganlyniadau buddiol o'r pwys mwyaf i'r amgylchedd.

**1.4.11** Efallai y bydd angen Caniatâd Cynllunio ar y datblygiad a bydd angen cysylltu â'r Awdurdod Lleol hefyd i benderfynu a oes angen caniatâd cynllunio ai peidio, er enghraifft, mewn rhai achosion nid yw IWA yn ddatblygu a ganiateir. Mae rheoliadau adeiladu'n aml yn berthnasol, boed caniatâd cynllunio neu beidio.[6]

---

[5] Nodyn Cygor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009). Polisi Cynllunio Cymru: Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/docs/desh/policy/100730tan5en.pdf

[6] http://www.planningportal.gov.uk/permission/house

# 1.5Y Resymau dros warchod ystlumod

1.5.1 Caiff holl ystlumod Prydain eu gwarchod o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd, oherwydd bod niferoedd pob rhywogaeth wedi dirywio dros nifer o ddegawdau. Mae poblogaethau'r ystlumod yn hynod fregus a hynny am eu bod yn atgenhedlu'n araf yn (nifer isel o rai bach mae ystlumod yn eu geni, ac mae nifer o ystlumod benywaidd yn cael un babi'n unig bob blwyddyn) ac maent yn magu'r ystlumod ifanc mewn nythfeydd, ac o ganlyniad 1) os caiff y nythfa ei difrodi, gall hynny roi'r farwol i ymdrechion y glwydfan gyfan i fagu ac 2) os bydd mwy nag un nythfa, neu nythfa fawr iawn yn cael ei heffeithio, mae'r boblogaeth yn lleihau'n gyflym ac yn cymryd amser hir i ymadfer.

1.5.2 Mae'r gostyngiad yn nifer yr ystlumod wedi digwydd yn bennaf o ganlyniad i golli cynefinoedd, gan gynnwys colli darnau helaeth o goetir (yn enwedig coed yn eu llawn dwf), troi hen adeiladau fferm yn gartrefi, a selio adeiladau hen a newydd er mwyn arbed ynni. Mae ystlumod hefyd yn dioddef erledigaeth uniongyrchol.

# 1.6 Effaith bosibl IWA ar adar

1.6.1 Ymhlith y rhywogaethau eraill a warchodir a all gael eu heffeithio gan waith arfaethedig y mae adar sy'n nythu mewn/ar adeiladau domestig.

1. Gall cynllun IWA olygu bod nythod/wyau'n cael eu dinistrio neu gywion yn cael eu lladd, ac fe allai hynny fod yn drosedd.
2. Gall adar hefyd golli eu mannau gorffwys o ganlyniad i IWA.
3. Gellir colli safleoedd nythu.
4. Gellir aflonyddu ar nythod byw (gan olygu bod y nyth yn fwy tebygol o fethu)

# 1.7 Crynodeb o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag adar

1.7.1 Gwarchodir adar o bob math o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)

1.7.2 Yn arbennig, mae'n drosedd i unrhyw un wneud y canlynol:

- lladd, anafu, neu ddal unrhyw aderyn gwyllt yn fwriadol
- cymryd, difrodi neu ddinistrio'n fwriadol neu'n ddi-hid, nyth unrhyw aderyn gwyllt tra bo'r nyth hwnnw'n cael ei hadeiladu neu'i defnyddio
- dal, difrodi neu ddinistrio'n fwriadol neu'n ddi-hid, wy unrhyw aderyn gwyllt.

1.7.3 Mae rhai adar, gan gynnwys y dylluan wen, yn cael eu gwarchod gan gosbau arbennig dan Atodlen 1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, rhag aflonyddu bwriadol neu di-hid pan fyddant ar nyth byw neu'n gyfagos.

## 1.8 Y rhesymau dros warchod adar

1.8.1 Mae pob aderyn gwyllt yn cael ei warchod o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, oherwydd mae niferoedd yr adar hefyd wedi gostwng yn sgil colli cynefinoedd, gan gynnwys colli safleoedd nythu addas. Hefyd mae poblogaethau rhai rhywogaethau wedi dirywio'n ddirfawr yn ystod y degawd diwethaf o ganlyniad i glefydau.

1.8.2 Mae statws gwarchodaeth rhywogaethau adar yn cael ei raddio'n[7] 'goch', 'ambr' neu'n 'wyrdd'. Y rhywogaethau mwyaf bregus yw'r rhai coch ac ambr. Mae'r categori coch yn cynnwys rhywogaethau sydd o bryder cadwraethol difrifol am fod maint/ystod eu poblogaeth wedi dirywio'n arw (o leiaf 50%) ac mae angen gweithredu ar fyrder. Mae i'r rhywogaethau ambr statws gwarchodaeth anffafriol oherwydd dirywiad cymedrol (25%-49%) ym maint/ystod eu poblogaeth.

1.8.3 Mae aderyn y to'n un enghraifft o rywogaeth a arferai fod yn gyffredin ar un adeg, ond sydd wedi dirywio'n ddirfawr dros y ddau ddegawd diwethaf, ac sydd â statws gwarchodaeth 'coch'. Mae adar y to'n un o'r rhywogaethau mwyaf cyffredin mewn ardaloedd lle mae gwaith IWA yn digwydd, am ei fod yn hoff o ddefnyddio bylchau mewn adeiladau/tai yn safleoedd nythu. Bydd nifer o nythod adar y to'n cael eu colli o ganlyniad i IWA. Aderyn arall a welwchn chi'n aml o amgylch tai, ac sydd mewn perygl o golli safleoedd nythu addas, yw gwennol y bondo, sydd â statws gwarchodaeth ambr. Mae'r gwenoliaid hyn yn nythu o dan y bondo ar adeiladau, ond yn aml nid yw'r safleoedd nythu hyn yn addas bellach ar ôl insiwleiddio'r waliau allanol, am fod y bondo'n gulach oherwydd y gwaith sydd wedi ei wneud, ac nid yw'n cynnig digon o gysgod rhag y tywydd.

## 1.9 Ystyriaethau deddfwriaethol eraill

1.9.1 Mae nifer o'r cynlluniau IWA hyn yn cael eu cyflawni gan Awdurdodau Lleol, neu ar ran Awdurdodau Lleol, gydag arian Llywodraeth Cymru. Felly, rhaid nodi bod yna ofynion deddfwriaethol ychwanegol i'w hystyried gan y cyrff hyn, ac i'r rhai sy'n cyflawni'r gwaith ar eu rhan o ganlyniad.

[7] http://www.rspb.org.uk/discoverandenjoynature/discoverandlearn/birdguide/status_explained.aspx

1.9.2 Mae dyletswydd hefyd ar bob corff cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth gyflawni'i swyddogaethau, a thrwy wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch yr ecosystemau (Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[8]).

1.9.3 Yn ogystal, mae gan gyrff cyhoeddus ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'u swyddogaethau i gwrdd â'u hamcanion o ran Datblygu Cynaliadwy.

1.9.4 Ceir mwy o wybodaeth am y gofynion hyn ym MHECYN A Rhan 2.

## 1.10 Cyfyngiadau ar gynllun IWA a'r goblygiadau i fywyd gwyllt

1.10.1 Yn y gorffennol roedd y cynlluniau IWA wedi'u cyfyngu gan amser, ac mae hynny'n debygol o barhau at y dyfodol. Y disgwyl yw y bydd y gwaith yn dechrau unwaith y bydd yr arian ar gael, a bydd angen ei gwblhau o fewn cyfnod o ryw chwe mis. Mae modd rhyddhau'r arian ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Os caiff arian ei ryddhau yn yr hydref neu'r gaeaf, y tu allan i dymor gweithgar y bywyd gwyllt, yna ni fydd unrhyw gyfleoedd i gynnal yr arolygon bywyd gwyllt priodol[9] (er enghraifft arolwg o'r ystlumod yn dod allan) sy'n ofynnol er mwyn penderfynu ynghylch yr effeithiau tebyg, a'r ffyrdd gorau o liniaru/gwneud iawn.

1.10.2 Fel arfer, mae'r gwaith wedi'i gyfyngu gan gyllideb dynn, nad yw, ar adeg ysgrifennu'r canllawiau hyn, yn caniatáu neilltuo digon o gyllid ar gyfer cynnal arolygon eang o fywyd gwyllt, yn enwedig ar gynlluniau mawr sy'n cynnwys dros gant o dai. Byddai'r gost o gynnal y lefel briodol o arolygon ar yr eiddo hefyd yn arwain at amau ymarferoldeb y cynlluniau.

1.10.3 Mae arolygon eang o fywyd gwyllt hefyd wedi'u cyfyngu gan nifer yr arolygwyr ystlumod cymwys sydd ar gael, o ystyried y bydd angen dau neu ragor o arolygwyr ystlumod ar gyfer pob adeilad unigol, a bod arolygon yn aml wedi'u cyfyngu i un adeilad y noson. Mae'r arolygon hefyd yn dibynnu ar dywydd addas ac efallai y bydd angen eu hailadrodd os na ellir dod i gasgliad pendant.

1.10.4 Felly roedd hi'n hanfodol cynhyrchu pecyn cymorth ar gyfer cynlluniau IWA, sy'n dda i'r amgylchedd ehangach, ac sy'n dod â buddiannau iechyd a chymdeithasol i denantiaid/perchnogion tai, yn ogystal â buddiannau economaidd. Bydd hyn yn caniatáu inni symud ymlaen mewn ffordd gyson a phragmatig, gan leihau'r effaith ar ystlumod ac adar, a lle bo modd, sicrhau budd cyffredinol o ran bioamrywiaeth.

[8] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/contents/enacted

[9] Collins, J (ed) (2016) BatSurveys for Professional Ecologists: Good Practice Guidelines (3rd edn). The Bat Conservation Trust, London. ISBN-13 978-1-972745-96-1

# 2 NODAU AC AMCANION

## 2.1 Nod y Pecyn Cymorth IWA

2.1.1 Nod y Pecyn Cymorth IWA yw rhoi canllawiau i awdurdodau lleol (a chleientiaid IWA eraill) a chontractwyr ar ffurf pecyn gwybodaeth ynghylch;

- sut mae gwarchod rhag troseddu yn erbyn bywyd gwyllt wrth weithredu cynllun IWA (ar unrhyw adeg o'r flwyddyn);
- sut mae cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth weithredu cynllun IWA; ac
- sut mae rheoli materion lles y bywyd gwyllt a all godi wrth gyflawni cynllun IWA.

2.1.2 Roedd yr amcanion fel a ganlyn:

1. Nodi'r risgiau posib sydd i adar ac ystlumod yn sgil cynllun IWA;
2. Nodi mesurau i warchod rhag cyflawni trosedd o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd), Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn ogystal â chynorthwyo i gynnal a hyrwyddo rhywogaethau sy'n destun pryder. Mae'r mesurau'n cynnwys camau osgoi rhesymol ac atebion o ran y dylunio ar gyfer ystlumod ac adar;
3. Llunio sgwrs bocs tŵls ar gyfer contractwyr sy'n tanlinellu'r risg i rywogaethau a warchodir, mesurau osgoi rhesymol i warchod rhag unrhyw droseddau lle mae bywyd gwyllt yn y cwestiwn, ac iechyd a diogelwch (mewn perthynas ag ystlumod ac adar);
4. Llunio datganiad dull ar gyfer contractwyr sy'n gwneud y gwaith; ac
5. Llunio datganiad dull a phroses ymgeisio ar gyfer trwydded ragofalus Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (fel bo angen).

# 3 DULLIAU

## 3.1 Profiad o IWA

3.1.1 Mae Green Man Ecology Ltd wedi datblygu mesurau lliniaru a dulliau dylunio pwrpasol ar ôl tair blynedd o brofiad o weithio gyda chontractwyr IWA. Cawsant y profiad trwy weithio ar gynlluniau o feintiau gwahanol (o 100 hyd at 500 o dai), gydag adeiladau amrywiol (o ran oed a gwneuthuriad), ac mewn ardaloedd daearyddol gwahanol gyda nodweddion tirweddol amrywiol.

3.1.2 Maen nhw wedi defnyddio'r profiad sydd ganddyn nhw yn yr agweddau canlynol ar gynlluniau IWA yn sylfaen ar gyfer y pecyn cymorth:

1) Logisteg a chost arolygon o'r rhywogaethau a warchodir a'r clerc gwaith ecolegol.

2) Logisteg a buddiannau arolygon ar droed.
3) Y gallu i drosglwyddo gwybodaeth i gontractwyr trwy gyfrwng rheolwyr safle.
4) Logisteg a chostau'r mesurau lliniaru.
5) Iechyd a diogelwch ar y safle.
6) Adroddiadau ac archwiliadau.
7) Asesiad o'r effaith ar y rhywogaethau a warchodir.

3.1.3 Graeme Lane, Energy Efficiency Officer for Ceredigion County Council has been involved in EWI for a number of years and has led on the Arbed scheme on behalf of the Council.

## 3.2 Profiad o ecoleg ystlumod

3.2.1 Mae gan Tom McOwat dros ddeugain mlynedd o brofiad, ac mae gan Catharine Wüster dros saith mlynedd o brofiad o weithio ym maes ecoleg ystlumod, gan gynnwys arolygon ystlumod a dylunio mesurau lliniaru.

3.2.2 Bu Leanne Bird, Uwch Ecolegydd / Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Sir Ceredigion, yn gweithio ym maes ecoleg, gan gynnwys polisïau cynllunio a deddfwriaeth bywyd gwyllt (gan gynnwys ystlumod) ers 10 mlynedd.

## 3.3 Ymgynghori

3.3.1 Bu trafod dros y ffôn gydag ecolegwyr ac/neu swyddogion bioamrywiaeth pum awdurdod lleol, er mwyn cael syniad o brofiad pawb a'u dulliau o weithio ar gynlluniau IWA.

3.3.2 Bu trafod gydag ecolegwyr eraill sydd â phrofiad o weithio ar gynlluniau IWA.

3.3.3 Hefyd bu trafod gyda chontractwyr sy'n ymwneud ag IWA (Wilmott Dixon Energy Services Ltd) fel rhan o'r broses ddatblygu.

3.3.4 Bu ymgynghori anffurfiol gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod, yr RSPB ac Awdurdodau Lleol dethol.

## 3.4 Treialu

3.4.1 Yn ystod y broses o lunio'r pecyn cymorth, cafodd y dulliau eu treialu i wneud yn siŵr eu bod yn addas ac yn ymarferol i'w cynnwys yn y cynllun.  Mae hyn wedi'n galluogi ni i gynhyrchu pecyn cymorth gwell, sy'n cynnwys atebion i'r rhwystrau a'r problemau sydd ohoni.

# 4 Y CANLYNIADAU

4.1 Cynhyrchwy**d pecyn cymorth IWA** sy'n cynnwys y pecynnau canlynol:

**PECYN A – Pecyn y Cleient**

- Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol
- Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer cleientiaid

**PECYN B – Pecyn yr Ecolegydd**

- Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol
- Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer Ecolegwyr
- Rhan 3 – Cais am Drwydded Rhanddirymiad Rhagofalus
    - *ffurflen gais*
    - *templed MS*

**PECYN C – Pecyn y Contractwr**

- Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol
- Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer Contractwyr
- Rhan 3 – Datganiad y dull lliniaru
- Rhan 4 – Sgwrs y bocs tŵls

**PECYN D – Pecyn Lliniaru**

- Rhan 1 – Ffurflen archwilio lliniaru eiddo
- Rhan 2 – Enghraifft o ffurflen archwilio lliniaru wedi ei llanw
- Rhan 3 – Catalog o ddulliau lliniaru a gwelliannau
- Rhan 4 – Cais am wybodaeth gyhoeddus am ystlumod ac adar
- Rhan 5 – Gwybodaeth am flychau ar gyfer rhywogaethau a bywyd gwyllt a warchodir ar gyfer perchnogion eiddo